

Ffydd, nid ofn: neges ar gyfer Sul y Fam

Exodus 2:1-10, Salm 34

Annwyl gyfeillion,

Rwyf yn ysgrifennu atoch ar amser rhyfedd. Mae Sul y Fam wedi cyrraedd, ac yn draddodiadol byddai pobl yn dychwelyd at eu fam eglwys, ond ni allwn gwrdd i addoli oherwydd Coronavirus. Fel arfer, byddwn yn cwrdd â'n teuluoedd, ond mae llawer yn gwynebu hunan-ynysu. Mae pobl ofn; ofn ar gyfer ein hiechyd, ofn ar gyfer ein bywoliaeth, ofn ar gyfer y dyfodol. Mae ein bywydau'n teimlo'n anghyfarwydd, ac mae hynny'n codi ofn hefyd.

Mae Duw yn siarad â'n hofnau yn y darlenniadau uchod mewn ffordd anhygoel o gyfoes. Pam na wnewch chi ddarllen yr adnodau rwan, a chymryd amser i fyfyrion arnynt? Yn gyntaf, yn yr Hen Destament, mae gennym ni stori mam. Mae Pharo, brenin yr Aifft, wedi datgan bod pob bachgen sy'n cael ei eni i'r Hebraeid i gael ei ladd. Pan mae Moses yn cael ei eni, mae ei fam yn ei guddio mor hir â phosib. Ond pan nad yw hynny'n bosib, mae hi'n gweu basged iddo a'i roi ymhlith y brwyni ar yr afon Nîl (Exodus 2:1-10). Allwch chi ddychmygu ei hofn? Beth fyddai'n digwydd i'w bachgen bach? Fyddai Moses yn byw? Fyddai hi byth yn ei weld o eto?

Rhaid oedd mam Moses yn teimlo ei bod yn gwneud rhywbeth gwbl annaturiol, wrth ei wahanu oddi wrth cariad a diogelwch ei fam. Ond dyna oedd y peth iawn i'w wneud er mwyn ei amddiffyn. Pan na allai hi gadw ei babi'n saff, mi wnaeth Duw weithredu mewn ffordd rhyfeddol. Cafodd Moses ei fagu ym mhalas y Pharo ei hun, gan ei fam ei hun... a darllenwch y Beibl am weddill y stori!

Mae'n annaturiol i ni gael ein gwahanu oddi wrth ein gilydd. Mae 'social distancing' a hunan-ynysu yn gosod pellter rhwng y bobl fwyaf bregus yn ein plith, a'u teuluoedd, eglwysi a chymunedau - yr union rai ddylai fod yn edrych ar eu holau. Ond, fel Moses, mae er mwyn ein cadw ni i gyd yn saff. Dyna'r peth iawn i'w wneud er mwyn amddiffyn pawb. Fel mam Moses, rhaid i ni wneud popeth fedrwn ni i helpu; ond pan na fedrwn ni, rhaid i ni ymddiried yn Nuw i wneud y gweddill. Mae Duw yn ein caru ni. Mae Duw yn dal i weithio heddiw. "Yr un Arglwydd wyt ti, a pherthyn i ti drugarhau bob amser."

Credir yn draddodiadol i Salm 34 gael ei hysgrifennu gan y brenin Dafydd pan oedd y brenin Saul yn ei erlid ac yn ceisio ei ladd. Dyna i chi ddyn gyda rheswm i boeni! Ond gwrandewch ar ei gân (adnodau 1-5):

Bendithiaf yr Arglwydd bob amser; bydd ei foliant yn wastad yn fy ngenau.
Yn yr Arglwydd yr ymhyfrydaf, bydded i'r gostyngedig glywed a llawenychu.
Mawrygwch yr Arglwydd gyda mi, a dyrchafwn ei enw gyda'n gilydd.
Ceisiais yr Arglwydd, ac atebodd fi, a'm gwaredu o'm holl ofnau.
Y mae'r rhai sy'n edrych arno'n gloywi...

Gawn ni weld sut mae Dafydd yn delio gyda'i ofnau, a beth fedrwn ni ddysgu. Yn yr adnodau uchod, mae'n gwneud tri pheth.

Yn gyntaf, mae'n moli'r Arglwydd *bob amser*. Nid jest pan mae pethau'n mynd yn iawn, ond yna, yng nghanol ei drafferthion. Wrth i ni foli Duw, rydym ni'n datgan ei fod yn hollalluog. Triwch ddweud hyn yn uchel, a'i olygu! "Sanctaid, sanctaid, sanctaid Arglwydd, Duw gallu a nerth, nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant!" Mae moli Duw yn ein hatgoffa ei fod o mewn rheolaeth o'r sefyllfa, a'i fod yn gallu gweithredu.

Yn ail, mae Dafydd yn *ymhyfrydu* yn yr Arglwydd. Dyna i chi air bendigedig. Mae Dafydd wrth ei fodd yn treulio amser yng nghwmni Duw. Mae rhai ohonoch yn mynd i fod â thipyn o amser sbâr ar eich dwylo yn yr wythnosau a'r misoedd i ddod. Wel, peidiwch â'i wastraffu! Treuliwch gyfnod bob dydd yn darllen y Beibl ac yn gweddïo. Efallai hoffech chi gychwyn gyda'r Salmau. Mae Duw yn siarad â ni drwy'r ysgrythur a thrwy weddi, ac wrth i ni geisio'r Arglwydd, mae ein hofnau ni'n lleihau a'n ffydd yn tyfu.

Yn drydydd, mae Dafydd yn *edrych* ar Dduw, yn hytrach nag edrych o'i gwmpas ar ei sefyllfa. Mae Coronavirus yn codi ofn arnom ni i gyd. Mae'n gallu teimlo'n llethol. Ond peidiwch â threulio drwy'r dydd yn gwyllo'r newyddion neu'n edrych ar y cyfryngau cymdeithasol. Trowch o i ffwrdd ac edrychwch ar Dduw yn lle hynny. Triwch gael ychydig o amser tawel gyda Duw bob dydd a gwranddo ar beth sydd ganddo fo i'w ddweud. Yn bersonol, rwyf yn treulio hanner awr yn y bore bach gyda'r Beibl a rhestrau o bobl a sefyllfeydd i weddïo drostynt. Ond ffindiwch beth sy'n gweithio i chi. Cofiwch, mae'r eglwysi ar agor; gallwch daro i mewn i dreulio ychydig o amser distaw. Bydd yn gwneud llawer mwy o les na poeni.

Felly, gyfeillion, dyma fy neges i chi. Dewiswch ffydd, nid ofn. Dewiswch ymddiried yn Nuw, fel mam Moses. Dewiswch foli'r Arglwydd. Dewiswch ymhyfrydu yn Nuw a'i geisio mewn gweddi ac ysgrythur; edrychwch arno fo hyn hytrach nag ar y newyddion. Mae Duw gyda ni. Mae Duw yn ein caru. Mae Duw mewn rheolaeth.

Bydded i Arglwydd tangnefedd ei hun roi tangnefedd ichwi bob amser ym mhob modd. Bydded yr Arglwydd gyda chwi oll. (2 Thessaloniaid 3:16).

Gyda chariad a gweddïau,

Cass

O.N. Mi wnawn ein gorau glas i gadw mewn cyswllt. Os oes gennych chi fynediad at y wê, ewch at www.penedeyrnmissionarea.co.uk ar gyfer mwy o negeseuon ac adnoddau gweddi. Ar Facebook, chwiliwch am [Christ Church Bala / Eglwys Crist y Bala](#) neu [Eglwys Cerrigydrudion Church](#). Twitter: [@Balaeglwys](#)
Os hoffech i mi anfon mwy o negeseuon fel hyn ar ebost, anfonwch ebost ataf: cass.meurig@gmail.com. Neu ffoniwch ar 01678 521403 i mi anfon rhywbeth atoch drwy'r post.